04.08.2022

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
07774 888145

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Byddwch yn rhan o'r tymor pêl-droed newydd gyda Sgorio

Pwy bynnag 'da chi'n cefnogi, allwch ddilyn pob cam o'r tymor pêl-droed yng Nghymru gyda Sgorio.

Bydd o leiaf 35 gêm bêl-droed domestig Cymru i'w gweld ar blatfformau S4C a Sgorio yn ystod y tymor 2022-23, o'r Cymru Premier JD, Cwpan Cymru JD, Cwpan Nathaniel MG a Chynghreiriau Adran Genero.

Bydd uchafbwyntiau o bob gêm yn y Cymru Premier JD yn cael eu dangos ar S4C bob dydd Llun, ac ar draws gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Sgorio.

Bydd modd clywed y newyddion diweddaraf o fyd bêl-droed Cymru ar bodlediad Sgorio ac ar y cyfryngau cymdeithasol, ble fydd eitemau i'w gweld ar bob lefel o'r gamp, o lawr gwlad i gêm y merched.

Dylan Ebenezer fydd yn cyflwyno Sgorio, gyda Sioned Dafydd a Nicky John yn gohebu a Nic Parry a Malcolm Allen yn sylwebu. Bydd Owain Tudur Jones, Gwennan Harries a Sion Meredith ymhlith yr arbenigwyr yn dadansoddi'r gemau.

Bydd y camerâu ym Mharc Chwaraeon Prifysgol De Cymru ar gyfer gêm fyw cyntaf y tymor, rhwng Pontypridd, a enillodd ddyrchafiad o Gynghrair y De JD y tymor diwethaf, a'r Fflint, ar nos Sadwrn 13 Awst. Bydd y gêm yn cael ei ddangos yn fyw ar S4C gyda'r gic gyntaf am 5.45yh.

Ar nos Sadwrn 20 Awst, bydd y gêm rhwng Aberystwyth a Met Caerdydd i'w gweld yn fyw ar S4C (Cic gyntaf 5.45yh).

Yr wythnos ganlynol, bydd Sgorio yn dangos tair gêm yn fyw ar-lein mewn wythnos ar draws blatfformau digidol, yn cychwyn gyda'r Bala v Y Drenewydd ar nos Wener 26 Awst (CG 7.45yh), Pen-y-bont v Hwlfforddd ar nos Fawrth 30 Awst (CG 7.45yh) a Chaernarfon v Airbus UK ar nos Wener 2 Medi (CG 7.45yh).

Dydd Sadwrn 10 Medi, bydd y gêm rhwng y pencampwyr, Y Seintiau Newydd, a Hwlfforddd, yn cael ei ddangos ar-lein ar blatfformau digidol (CG 5.15yh).

Bydd y gemau ar-lein i'w gweld ar S4C Clic, ac ar dudalennau Facebook ac YouTube Sgorio. Dilynwch gyfrifon @sgorio ar Facebook, Twitter, Instagram ac YouTube i weld y cynnwys diweddaraf.

Bydd rhaglenni Sgorio yn cael ei noddi gan Screwfix yn ystod y tymor 2022-23.

**Sgorio: Pontypridd v Y Fflint**
**Nos Sadwrn 13 Awst, 5.30yh, S4C**
**Sylwebaeth ac isdeitlau Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Rondo Media ar gyfer S4C**

04.08.2022

Tomos Hughes
Cyswllt Contact
01286 674622

**Erthygl i'r Wasg** Press Release

# Be a part of the new football season with Sgorio

Whichever team you support, make sure to follow every step of the Welsh football season with Sgorio.

At least 35 Welsh domestic football matches will be shown on the S4C and Sgorio platforms during the 2022-23 season, from the JD Cymru Premier, JD Welsh Cup, Nathaniel MG Cup and Genero Adran Leagues.

Highlights from every JD Cymru Premier match will be shown on S4C every Monday, and across the Sgorio social media accounts.

You can get the latest Welsh football news and exclusive interviews on the Sgorio weekly podcast and the social channels, where there will be regular items covering all levels of the game, from grassroots to women's football.

Dylan Ebenezer will host Sgorio alongside reporters Sioned Dafydd and Nicky John, with Nic Parry and Malcolm Allen in the commentary box and Mark Jones and Tomi Morgan providing English commentary on the red button. Owain Tudur Jones, Gwennan Harries and Sion Meredith will be among a host of current and former footballers who will provide expert match analysis.

The cameras will be at the University of South Wales Sport Park for the first live match of the season, between newly-promoted Pontypridd Town and Flint Town United on Saturday 13 August. The match will be televised live on S4C, with kick off at 5.45pm.

On Saturday 20 August, the match between Aberystwyth Town and Cardiff Met will also be shown live on S4C (Kick off 5.45pm).

The following week, Sgorio will show three live online matches in a week across its digital platforms, starting with Bala Town v Newtown on Friday 26 August (KO 7.45pm), before Pen-y-bont v Haverfordwest County on Tuesday 30 August (KO 7.45pm) and Caernarfon Town v Airbus UK on Friday 2 September (KO 7.45pm).

On Saturday 10 September, the match between champions The New Saints and Haverfordwest will be shown live online (KO 5.15pm).

Online matches will be shown on S4C Clic and on the Sgorio Facebook and YouTube pages. Follow the @sgorio accounts on Facebook, Twitter, Instagram and YouTube to receive the latest content.

Screwfix will sponsor Sgorio programmes throughout the 2022-23 season.

**Sgorio: Pontypridd Town v Flint Town United**
**Saturday 13 August, 5.30pm, S4C**
**English Commentary and Subtitles**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Rondo Media production for S4C**

**FFIT Cymru**
**Tuesday 5 April, 9.00**
**English Subtitles**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Cwmni Da production for S4C**